# Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog

| | | |
|---|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 4 – Tŷ Hywel** | |
| Dyddiad: | **Dydd Iau, 21 Mawrth 2013** | |
| Amser: | **09:30 – 10:00** | |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
[www.senedd.tv](http://www.senedd.tv)

## Cofnodion Cryno:
Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | **David Melding (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Eluned Parrott**<br>**Ken Skates** |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | **Siân Phipps (Clerc)**<br>**Richard Johnson (Dirprwy Glerc)**<br>**Gwyn Griffiths (Cynghorydd Cyfreithiol)**<br>**Graham Winter (Ymchwilydd)** |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon
Cafwyd ymddiheuriadau gan Elin Jones.

Roedd Ken Skates yn dirprwyo ar ran Mark Drakeford.

## 2 Trafod llythyr drafft – Cyfarfod Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ar 27 Chwefror 2013
Cytunodd yr Aelodau ar eiriad y llythyr, yn amodol ar newid yn y paragraff olaf ond un.

## 3 Trafod papur drafft - Gweithgaredd y Pwyllgor ar gyfer y dyfodol - opsiynau ar gyfer tymor yr haf 2013

Cytunodd yr Aelod i gynnal y cyfarfod nesaf yng Ngogledd Cymru. Cynhelir y cyfarfod yn ystod tymor yr haf.

Cytunwyd y byddai'r tîm clercio yn cysylltu â'r Prif Weinidog i bennu dyddiad a lleoliad addas ar gyfer y cyfarfod.

Cytunodd yr Aelodau mai darpariaeth prosiectau seilwaith mawr, gan gynnwys ynni, ddylai fod pwnc y cyfarfod nesaf. Cytunwyd y dylid canolbwyntio'n arbennig ar enghreifftiau yng Ngogledd Cymru, gan gynnwys trydaneiddio'r rheilffyrdd, gwelliannau i'r A55, ynni niwclear ac adnewyddadwy, gwella'r grid a dinas-ranbarthau.

Awgrymodd yr Aelodau y gallai'r ymweliad â Gogledd Cymru hefyd gynnwys digwyddiad y noson cyn y cyfarfod.

Awgrymodd yr Aelodau hefyd y dylid cynnal digwyddiad ymgysylltu fel sesiwn meic agored.  Efallai y gellid gwahodd y Prif Weinidog i gymryd rhan yn y gweithgaredd hwn.

Dywedodd yr Aelodau eu bod yn hoffi arddull y papur briffio a ddarparwyd yn ystod y cyfarfod blaenorol, a byddent yn hoffi gweld rhywbeth tebyg ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.